Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ail adroddiad blynyddol Gweinidogion Cymru ar weithredu Rhan 2 (Cyllid) o Ddeddf Cymru 2014

I'w osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gyflwyno i'r Senedd, yn unol ag Adran 23 o Ddeddf Cymru 2014

Rhagfyr 2016

OGL © Hawlfraint y Goron / Crown copyright 2016
WG30264
ISBN digidol / Digital ISBN 978 1 4734 2800 5 ISBN argraffu / Print ISBN 978 1 4734 8201 2

**Cynnwys**


| | tudalen |
|---|---|
| **Rhagair** | 2 |
| **Cyflwyniad** | 3 |
| **Treth trafodiadau tir** | 4 |
| **Treth Gwarediadau Tirlenwi** | 7 |
| **Awdurdod Cyllid Cymru** | 9 |
| **Benthyca** | 11 |
| **Treth incwm** | 13 |
| **Trethi datganoledig newydd** | 14 |
| **Addasiad grant bloc** | 15 |
| **Gweithdrefnau cyllidebol** | 16 |
| **Atodiad 1: Ymgysylltu** | 18 |
| **Atodiad 2: Gwybodaeth bellach** | 21 |
| **Atodiad 3: Acronymau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn** | 23 |

**Rhagair**



Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud dros y flwyddyn ddiwethaf ym mhob agwedd ar y rhaglen i weithredu datganoli trethi. Cafodd Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) gydsyniad Brenhinol yn 2016, gan ddarparu ar gyfer sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru. Ar ôl penodi cyfarwyddwr gweithredu Awdurdod Cyllid Cymru yn yr haf, cyhoeddwyd y pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr ar gyfer penodi cadeirydd ac aelodau bwrdd anweithredol Awdurdod Cyllid Cymru. Rwy'n bwriadu gwneud cyhoeddiad am benodiad y cadeirydd yn y Flwyddyn Newydd, er mwyn sicrhau bod ganddo/ganddi rôl yn y gwaith o benodi i'r bwrdd.

Cyflwynwyd dau Fil treth – Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) a Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) – gerbron y Cynulliad Cenedlaethol yr hydref hwn, ac maent yn destun craffu ar hyn o bryd. Rwy'n ddiolchgar i'r llu o sefydliadau ac unigolion sydd wedi rhoi o'u hamser i gyfrannu at ddatblygu'r Biliau hyn dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Maent wedi elwa'n fawr ar y cyfraniad hwn.

Yr hyn sy'n sylfaen i'r gwaith o weithredu pwerau trethu newydd Cymru yw'r trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, yng Nghyd-bwyllgor y Trysorlysoedd (Cymru), ar fframwaith cyllidol, a fydd yn nodi sut y bydd gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn cael eu hariannu ar ôl datganoli trethi. Bydd y fframwaith yn nodi sut y bydd grant bloc Cymru yn cael ei addasu ar ôl datganoli treth dir y dreth stamp, treth dirlenwi, ac ar ôl datganoli'r dreth incwm yn rhannol, a sut y bydd y cyllid gwaelodol yn gweithredu ac yn rhyngweithio â fformiwla Barnett. Mae'r ddwy Lywodraeth hefyd yn trafod pwerau benthyca cyfalaf ar gyfer Llywodraeth Cymru, ynghyd â materion rheoli cyllidebol eraill. Disgwylir y bydd y trafodaethau hyn wedi'u cwblhau erbyn dechrau 2017.

Mae disgwyl y bydd y dreth trafodiadau tir, a fydd yn disodli treth dir y dreth stamp, a'r dreth gwarediadau tirlenwi, a fydd yn disodli'r dreth dirlenwi, yn dod yn weithredol ym mis Ebrill 2018. Y rhain fydd y trethi Cymreig cyntaf mewn bron 800 o flynyddoedd.

Mark Drakeford

Mark Drakeford AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol

**Cyflwyniad**

O dan adran 23 o Ddeddf Cymru 2014[1], mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru adrodd yn flynyddol ar y cynnydd a wnaed o ran gweithredu'r darpariaethau o dan Ran 2, tan y bydd blwyddyn wedi mynd heibio wedi i'r darpariaethau olaf gael eu gweithredu. Dyma'r ail adroddiad blynyddol gan Weinidogion Cymru.

Mae adran 23(7) o'r Ddeddf yn datgan bod yn rhaid i'r adroddiadau blynyddol gynnwys yr wybodaeth ganlynol am y darpariaethau ariannol (Nid yw'r rhan hon o'r ddogfen ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei llunio yn Gymraeg ydyw):

*(a)* *A statement of the steps that have been taken, whether by the maker of the report or by others, since the making of the previous report (or, in the case of the first report, since the passing of this Act) towards implementation of the provisions of this Part,*

*(b)* *A statement of the steps that the maker of the report proposes should be taken, whether by the maker of the report or by others, towards the implementation of the provisions of this Part,*

*(c)* *An assessment of the operation of the provisions of this Part that have been implemented,*

*(d)* *An assessment of the operation of any other powers to devolve taxes to the Assembly or to change the powers of the Welsh Ministers to borrow money, and of any other changes affecting the provisions inserted or amended by this Part,*

*(e)* *A statement of the effect of this Part on the amount of any payments made by the Secretary of State under section 118 of GOWA 2006 (payments into the Welsh Consolidated Fund), and*

*(f)* *Any other matters concerning the sources of revenue for the Welsh Government that the maker of the report considers should be brought to the attention of Parliament or the Assembly.*

Mor gynnar â hyn yn y gwaith gweithredu, mae'r ail adroddiad hwn yn canolbwyntio ar (a) a (b).

Nid yw'n ofynnol i'r adroddiadau fynd i'r afael â'r adrannau canlynol o Ddeddf Cymru 2014: adran 10 (Trethdalwyr Cymru at ddibenion nawdd cymdeithasol neu gynnal plant); adran 11 (Diwygiadau i'r diffiniad o drethdalwr o'r Alban) ac adran 22 (Gweithdrefnau cyllidebol). Fodd bynnag, mae Gweinidogion Cymru wedi penderfynu cynnwys cynnydd tuag at gyflawni adran 22 yn yr adroddiad hwn.

Mae disgwyl i'r adroddiadau fod yn barod bob blwyddyn cyn pen-blwydd y dyddiad y cafodd y Ddeddf Gydsyniad Brenhinol – 17 Rhagfyr 2014 – a bydd disgwyl i'r adroddiad terfynol fod yn barod flwyddyn ar ôl y diwrnod y bydd yr olaf o'r darpariaethau yn Rhan 2 yn cael ei gweithredu, neu cyn gynted ag sy'n ymarferol wedi hynny.

---

[1]Mae Deddf Cymru 2014 ar gael ar y wefan GOV.UK:
http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2014/29/contents/enacted

**Treth trafodiadau tir**

Mae Adran 15 o Ddeddf Cymru 2014 yn diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 er mwyn galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ddeddfu ar gyfer treth Gymreig ar drafodiadau sy'n ymwneud â buddiannau mewn tir. Mae Adran 16 ac Atodlen 2 yn diwygio deddfwriaeth y DU i ddiddymu treth dir y dreth stamp yn y DU mewn perthynas â Chymru. Bydd y diwygiadau yn weithredol ar neu ar ôl dyddiad a benodir gan y Trysorlys trwy Orchymyn. Mae adran 17 yn ymwneud â darparu gwybodaeth am drafodiadau tir yng Nghymru i CThEM.

Mae'r Papur Gorchymyn a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU ochr yn ochr â Bil Cymru (Mawrth 2014) hefyd yn datgan y byddai treth dir y dreth stamp yn 'dirwyn i ben' o fis Ebrill 2018.[2]

1. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud cynnydd sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf tuag at weithredu'r dreth trafodiadau tir i gymryd lle treth dir y dreth stamp pan fydd yn cael ei dirwyn i ben yng Nghymru.

2. Ar ddechrau 2016, roedd y gwaith yn canolbwyntio ar baratoi darpariaethau drafft o Fil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru), er mwyn profi adrannau allweddol gyda rhanddeiliaid ac arbenigwyr ar dreth. Cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol ddrafft cynnar o'r Bil ym mis Gorffennaf, cyn ei gyflwyno'n ffurfiol, i alluogi Aelodau'r Cynulliad a rhanddeiliaid eraill i ymgyfarwyddo â'i strwythur a'i gwmpas. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru daflen ffeithiau am y Bil hefyd, a oedd yn amlinellu'r gwahaniaethau allweddol rhwng y dreth trafodiadau tir a threth dir y dreth stamp. Roedd yr adborth yn gadarnhaol – tynnodd rhanddeiliaid sylw at natur hygyrch yr hyn sy'n ddarn technegol iawn o ddeddfwriaeth.

3. Cyflwynwyd y Bil i'r Cynulliad Cenedlaethol ar 12 Medi 2016. Mae Pwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol yn craffu ar y Bil, a chyhoeddodd y Pwyllgor gais am dystiolaeth rhwng 14 Medi a 21 Hydref. Bu Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol i ddwy sesiwn gyda'r Pwyllgor Cyllid, lle darparodd dystiolaeth am egwyddorion cyffredinol y Bil. Bydd adroddiad craffu, sy'n manylu ar ganfyddiadau'r Pwyllgor Cyllid ac yn nodi ei argymhellion, yn cael ei gyhoeddi ar 22 Rhagfyr. Disgwylir dadl yn y Cyfarfod Llawn am egwyddorion cyffredinol y Bil ym mis Ionawr 2017. Mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio sicrhau Cydsyniad Brenhinol i'r Bil erbyn haf 2017.

4. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer y canlynol:
   - Cysyniadau allweddol y dreth trafodiadau tir, gan gynnwys am ba fath o drafodiadau y codir tâl ac ar bwy;
   - Y weithdrefn ar gyfer gosod cyfraddau a bandiau'r dreth;
   - Y ffordd y bydd y dreth yn cael ei chyfrifo, a pha ryddhadau fydd yn berthnasol;
   - Y ddarpariaeth ar gyfer llenwi ffurflen trafodiad tir ac ar gyfer talu'r dreth;
   - Y darpariaethau penodol a fydd yn berthnasol i amrywiaeth o bobl a chyrff mewn perthynas â'r dreth hon;

[2] 'Bil Cymru: atebolrwydd a grymuso ariannol' Cm 8838, para 16. Ar gael yma: https://www.gov.uk/government/publications/wales-bill

- Dyletswyddau ar drethdalwyr i wneud taliad ac i dalu cosbau a llog mewn amgylchiadau penodol; a
- Mesurau penodol i fynd i'r afael ag osgoi trethi datganoledig.

5. Bydd Awdurdod Cyllid Cymru yn ymgymryd â'r holl swyddogaethau casglu a rheoli trethi ar gyfer y dreth trafodiadau tir; bydd CThEM yn darparu arbenigedd a gwybodaeth trwy secondiadau staff er mwyn datblygu a chyfoethogi arbenigedd Awdurdod Cyllid Cymru mewn cydymffurfiaeth.

<u>Gordal anheddau ychwanegol y dreth trafodiadau tir</u>

6. Yn Natganiad yr Hydref 2015, cyhoeddodd Llywodraeth y DU fod cyfraddau uwch o ran treth dir y dreth stamp yn cael eu cyflwyno ar eiddo preswyl ychwanegol a brynir, megis eiddo prynu i osod ac ail gartrefi. Yn dilyn ymgynghoriad byr, daeth y cyfraddau uwch ar gyfer treth dir y dreth stamp i rym o 1 Ebrill 2016. Pasiodd Llywodraeth yr Alban ddeddfwriaeth i weithredu cyfradd uwch debyg o 1 Ebrill 2016 – y tâl am anheddau ychwanegol – ar gyfer ei threth trafodiadau tir ac adeiladau.

7. Ym mis Gorffennaf 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru bapur ac arolwg ar-lein gan Drysorlys Cymru i geisio barn ar y gwaith o weithredu cyfraddau uwch treth dir y dreth stamp, a pha un a ddylid datblygu cyfraddau uwch ar gyfer y dreth trafodiadau tir ai peidio.

8. Ar sail yr ymatebion i Bapur y Trysorlys, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet y bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud darpariaeth ar gyfer gordal y dreth trafodiadau tir ar brynu anheddau preswyl ychwanegol yn y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru), a hynny yn ystod ail gam y broses ddeddfwriaethol. Mae Llywodraeth Cymru yn dal i asesu'r ymatebion, ynghyd â thystiolaeth newydd am effaith cyfradd uwch treth dir y dreth stamp yng Nghymru.

<u>Gosod cyfraddau a bandiau ar gyfer y dreth trafodiadau tir</u>

9. Ym mis Medi, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru bapur ymchwil ynglŷn â gosod cyfraddau a bandiau ar gyfer y dreth trafodiadau tir, a oedd yn egluro'r cyd-destun ehangach ar gyfer eu gosod. Mae Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddatgan y cyfraddau a'r bandiau ar gyfer rheoliadau, sy'n golygu y bydd modd gwneud cyhoeddiad yn agosach at yr adeg y bydd y ddeddfwriaeth yn dod i rym. Gall y farchnad dai a threth dir y dreth stamp newid yn gyflym, sy'n golygu y gall cyfraddau a gyhoeddir yn rhy gynnar fod yn anaddas. Bydd Llywodraeth Cymru yn gallu defnyddio'r data a'r rhagolygon economaidd diweddaraf wrth bennu'r cyfraddau a'r bandiau cychwynnol.

<u>Ymgysylltu â rhanddeiliaid</u>

10. Mae cyfraniadau rhanddeiliaid wedi bod yn hanfodol wrth ddatblygu'r dreth trafodiadau tir, a bydd y gwaith ymgysylltu yn parhau wrth i'r Bil gael ei basio. Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda Chymdeithas y Cyfreithwyr a'r Cyngor ar gyfer Trawsgludwyr Trwyddedig i gynnwys cyfreithwyr a thrawsgludwyr o bob cwr o Gymru a Lloegr. Mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio rhwydweithiau cyfreithwyr a gweithwyr treth proffesiynol; wedi cyhoeddi erthyglau yn y newyddion proffesiynol; ac wedi cwrdd â grwpiau, gan gynnwys Cymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid, Cymdeithas yr Asiantau Tai, a Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig. Mae'r

Fforwm Trethi, y Grŵp Cynghori Trethi[3] a Grŵp Technegol Arbenigol y Dreth Trafodiadau Tir, hefyd wedi rhoi cefnogaeth gref.

11. Mae Llywodraeth Cymru yn trafod trefniadau i gasglu a rhannu data â CThEM, y Gofrestrfa Tir, Asiantaeth y Swyddfa Brisio ac awdurdodau lleol.

---

[3] Mae gwybodaeth am y Grŵp Cynghori Trethi a'r Fforwm Trethi ar gael yn atodiad 1.

**Treth gwarediadau tirlenwi**

Mae Adran 18 o Ddeddf Cymru 2014 yn diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 er mwyn galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ddeddfu ar gyfer treth Gymreig ar warediadau tirlenwi. Mae Adran 19 yn diwygio Rhan 3 o Ddeddf Cyllid 1996 i ddiddymu treth dirlenwi y DU mewn perthynas â Chymru.

Mae'r Papur Gorchymyn a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU ochr yn ochr â Bil Cymru (Mawrth 2014) hefyd yn datgan y byddai'r dreth dirlenwi yn dirwyn i ben o Ebrill 2018.

12. Ar 28 Tachwedd 2016, cyflwynodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol Fil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Bydd hwn yn darparu ar gyfer treth ar warediadau tirlenwi yng Nghymru ac yn disodli'r Dreth Dirlenwi o 1 Ebrill 2018. Y bil hwn yw'r trydydd i sefydlu trefniadau trethi datganoledig yng Nghymru.

13. Mae'r ddeddfwriaeth yn gysylltiedig â Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016[4], sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer casglu a rheoli trethi datganoledig, gan gynnwys sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru. Bydd y Bil yn adeiladu ar y fframwaith gweinyddol a sefydlwyd trwy Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru), a hynny trwy nodi'r trefniadau gweithredol ar gyfer y dreth gwarediadau tirlenwi yng Nghymru. Bydd hyn yn sicrhau bod treth ar warediadau tirlenwi yn parhau i gael ei rheoli a'i chasglu yng Nghymru ar ôl i'r dreth dirlenwi gael ei datganoli i Gymru ym mis Ebrill 2018. Bydd cyflwyno'r dreth gwarediadau tirlenwi yn gwarchod refeniw trethi, fel bod modd parhau i fuddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Bydd deddfwriaeth y dreth gwarediadau tirlenwi hefyd yn annog mwy o atal, ailddefnyddio, ailgylchu ac adfer gwastraff.

14. Bydd Llywodraeth Cymru, yn unol â safbwyntiau gan randdeiliaid, yn gyson yn gyffredinol â'r dreth dirlenwi bresennol o ran prosesau a ffyrdd o ymdrin â chyfraddau treth. Fodd bynnag, mae'r Bil yn ceisio diweddaru'r ddeddfwriaeth er mwyn adlewyrchu arferion presennol, a rhoi eglurder a sicrwydd i drethdalwyr ac i Awdurdod Cyllid Cymru. Mae'r Bil yn ceisio rhoi sefydlogrwydd a chysur i fusnesau, a chwtogi'r risg o dwristiaeth gwastraff.

15. Bydd y Bil yn galluogi Awdurdod Cyllid Cymru i godi treth ar waredu gwastraff yn anawdurdodedig, gan felly fynd i'r afael â'r ffordd hysbys hon o efadu trethi.

<u>Ymgysylltu â rhanddeiliaid</u>

16. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori'n eang ynghylch y trefniadau casglu a rheoli[5] ac ynghylch manylion y Bil; rydym wedi ymgysylltu'n eang â rhanddeiliaid trwy gydol y broses o ddatblygu polisi a deddfwriaeth y dreth gwarediadau tirlenwi.

[4] Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016: http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=12989
[5] *Casglu a Rheoli Trethi Datganoledig yng Nghymru* – crynodeb o'r ymatebion (Chwefror 2015): https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/casglu-rheoli-trethi-datganoledig-yng-nghymru

17. Trwy gydol y broses o ddatblygu'r polisi, ymgynghorwyd â rhanddeiliaid amryfal trwy Grŵp Cynghori Trethi Llywodraeth Cymru, y Fforwm Trethi[6], Grŵp Arbenigwyr Technegol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi, a grŵp rhanddeiliaid gweithredwyr safleoedd tirlenwi. Mae'r ddau grŵp olaf hyn yn darparu dealltwriaeth a chyngor o ran rhoi'r dreth dirlenwi ar waith yn ymarferol.

18. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad a'r digwyddiadau ymgysylltu yn arbennig o ddefnyddiol o ran amlygu meysydd lle y bydd yn bwysig cynnal cysondeb â threfniadau yng ngweddill y DU, a lle y mae cyfleoedd yn bodoli i wneud y ddeddfwriaeth bresennol yn fwy clir ac i'w diweddaru, yn ogystal ag i wneud newidiadau i adlewyrchu amgylchiadau ac anghenion Cymru yn well.

19. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi prawf ar oblygiadau ymarferol y dreth arfaethedig trwy drafodaethau manwl â rhanddeiliaid, gan gynnwys gweithredwyr safleoedd tirlenwi, arbenigwyr ariannol, gwasanaethau amgylcheddol a Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r Bil, fel y'i cyflwynir, yn adlewyrchu'r ymatebion a'r adborth gan randdeiliaid.

<u>Treth Gwarediadau Tirlenwi – Cynllun cymunedol</u>

20. Ym mis Gorffennaf 2016, cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol ei fwriad i sefydlu Cynllun Cymunedol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi i gefnogi prosiectau amgylcheddol a chymunedol mewn ardaloedd y mae gwaredu gwastraff mewn safleoedd tirlenwi wedi effeithio arnynt. Bydd y prosiectau'n canolbwyntio ar fioamrywiaeth, cwtogi gwastraff a gwelliannau amgylcheddol ehangach, a byddant wedi'u halinio â'r nodau a bennir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 a rhaglen lywodraethu *Symud Cymru Ymlaen* Llywodraeth Cymru, sy'n ceisio adeiladu Cymru gynaliadwy.

21. Er mwyn sicrhau bod cymaint o arian â phosibl yn cyrraedd ein cymunedau, bydd y cynllun yn cael ei gyflwyno ar ffurf grant, a bydd peth o refeniw'r dreth gwarediadau tirlenwi yn cael ei ddyrannu i drydydd parti (y corff dosbarthu) er mwyn iddo ddosbarthu'r arian yn uniongyrchol i brosiectau. Ar 29 Tachwedd 2016, cyhoeddodd yr Aelod Cabinet y byddai ymarfer caffael yn cael ei gynnal yn 2017 i benodi'r corff dosbarthu.

22. Mae gwaith eang wedi cael ei wneud gyda rhanddeiliaid er mwyn helpu i lywio'r cynllun. Cynhaliwyd gweithdy ym mis Rhagfyr 2015 er mwyn deall beth oedd yr egwyddorion sylfaenol. Cynhaliwyd gweithdy arall ym mis Mawrth 2016 i edrych yn fanylach ar egwyddorion y cynllun a'r gwaith o'i weinyddu; ei ffocws daearyddol, a'r mathau o brosiectau y dylid eu cefnogi. Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd â gweithredwyr safleoedd tirlenwi ym mis Mawrth a mis Medi 2016, ac â Grŵp Arbenigwyr Technegol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi ym mis Mawrth a mis Tachwedd 2016.

23. Bydd papur diweddaru yn cael ei gyhoeddi cyn hir, a fydd yn amlinellu sut y bydd y cynllun yn gweithredu, gan gynnwys sut y bydd yn cael ei weinyddu, y mathau o brosiectau a fydd yn cael eu hariannu, a ffocws daearyddol y cynllun.

---

[6] Mae gwybodaeth am y Grŵp Cynghori Trethi a'r Fforwm Trethi ar gael yn atodiad 1.

**Awdurdod Cyllid Cymru**

24. Cafodd Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 Gydsyniad Brenhinol ym mis Ebrill. Mae'r Ddeddf yn gosod y seiliau ar gyfer cyfundrefn trethi newydd Cymru, gan gynnwys sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru fel adran anweinidogol sydd â chyfrifoldeb cyfreithiol dros gasglu a rheoli trethi datganoledig.

25. Mae'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi yn rhoi'r grym i Awdurdod Cyllid Cymru ddirprwyo unrhyw un o'i swyddogaethau i unrhyw gorff sydd wedi'i ragnodi mewn rheoliadau a luniwyd gan Weinidogion Cymru. Ym mis Gorffennaf 2016, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol y byddai Awdurdod Cyllid Cymru yn casglu ac yn rheoli'r dreth trafodiadau tir. Byddai hefyd yn ymgymryd â'r rhan fwyaf o'r swyddogaethau casglu a rheoli ar gyfer y dreth gwarediadau tirlenwi, gan weithio mewn partneriaeth â Cyfoeth Naturiol Cymru ar faterion yn ymwneud â chydymffurfio a gorfodi.

<u>Adnoddau a lleoliad</u>

26. Ym mis Awst 2016 penodwyd Dyfed Alsop, cyn-brif swyddog strategaeth Asiantaeth y Swyddfa Brisio, yn gyfarwyddwr cyflawni Awdurdod Cyllid Cymru. Bydd Awdurdod Cyllid Cymru yn sefydliad medrus, bach ond hyblyg, a all ddenu a chadw amrywiaeth o weithwyr proffesiynol, ac a fydd yn cyflawni amrywiaeth eang o swyddogaethau, gan gynnwys prosesu ffurflenni treth, sicrhau cydymffurfiaeth o ran talu trethi, dadansoddi data a datblygu galluogrwydd digidol. Bydd anghenion o ran sgiliau yn cael eu hadolygu'n gyson wrth i'r rhaglen ddatblygu. Bydd yn hanfodol i Awdurdod Cyllid Cymru ddenu pobl sydd â'r sgiliau a'r profiad angenrheidiol – gallu Awdurdod Cyllid Cymru i ddenu a chadw gweithlu medrus fydd y ffactor pwysicaf o ran ei lwyddiant.

27. Cyhoeddwyd y pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr ar gyfer penodi cadeirydd ac aelodau bwrdd anweithredol Awdurdod Cyllid Cymru ar 29 Tachwedd 2016. Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gydag arweinwyr o'r sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, i geisio eu barn ar y broses o benodi cadeirydd ar gyfer Awdurdod Cyllid Cymru, ac i sicrhau grŵp o ymgeiswyr eang ac amrywiol.

<u>Ymgysylltu â rhanddeiliaid</u>

28. Mae'r gwaith o ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi canolbwyntio ar weithwyr treth proffesiynol a chyrff ymbarél – y Grŵp Cynghori Trethi, y Fforwm Trethi[7], a grwpiau o arbenigwyr technegol. Mae rhwydweithiau cwsmeriaid yn cael eu datblygu â'r asiantau hynny – megis cyfreithwyr, traswgludwyr, a threthdalwyr (gweithredwyr safleoedd tirlenwi) – a fydd yn trafod ag Awdurdod Cyllid Cymru wrth dalu'r dreth trafodiadau tir a'r dreth gwarediadau tirlenwi.

29. Mae tîm rhaglen Awdurdod Cyllid Cymru wedi ymgynghori â threthdalwyr ac asiantau, ac wedi gweithio gyda nhw, i ddatblygu'r prosesau mewn perthynas â chasglu a rheoli'r dreth trafodiadau tir a'r dreth gwarediadau tirlenwi.

30. Mae Llywodraeth Cymru a CThEM wedi dechrau pennu cwmpas y gwaith er mwyn hwyluso'r newid i'r rheiny a fydd yn talu'r dreth trafodiadau tir a'r dreth gwarediadau

[7]Mae gwybodaeth am y Grŵp Cynghori Trethi a'r Fforwm Trethi ar gael yn atodiad 1.

tirlenwi ym mis Ebrill 2018. Mae cynnydd da wedi cael ei wneud gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ar ei swyddogaeth cydymffurfio a gorfodi o ran y dreth gwarediadau tirlenwi – mae rheolwr prosiect penodedig yn Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru.

31. Mae rhaglen gyflawni Awdurdod Cyllid Cymru yn gweithio'n agos gyda'r Gofrestrfa Tir, Asiantaeth y Swyddfa Brisio, a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar amrywiaeth eang o faterion, o rannu data i ddelio ag eiddo trawsffiniol ar gyfer y dreth trafodiadau tir, i'r ffordd y mae tribiwnlysoedd trethi yn gweithredu. Mae grŵp cyswllt trethi wedi cael ei sefydlu gydag awdurdodau lleol Cymru, i ddysgu o'u profiadau nhw o ran casglu trethi lleol; i rannu arfer gorau o ran casglu trethi, ac i archwilio cyfleoedd ar gyfer cydweithio yn y dyfodol.

Costau Awdurdod Cyllid Cymru

32. Mae gwaith wedi dechrau i brofi'r farchnad mewn perthynas â darparu gwasanaeth digidol y bydd ei angen ar Awdurdod Cyllid Cymru erbyn mis Ebrill 2018, a bydd gwaith manwl ar strwythurau trefniadol Awdurdod Cyllid Cymru yn llywio'r gofynion o ran adnoddau ar gyfer 2017-18.

33. Mae amcangyfrif o amrediad y gwariant a gyhoeddwyd y llynedd – mewn llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth ym mis Tachwedd 2015 – yn dal i fod yr amcangyfrif gorau o gostau. Ar gyfer costau gweithredu mae'n nodi amcangyfrif o £4.8 miliwn i £6.3 miliwn rhwng 2016-17 a 2018-19, a chostau rhedeg blynyddol o £2.8 miliwn i £4 miliwn.

## Benthyca

Mae adran 20 o Ddeddf Cymru 2014 yn diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i fenthyca hyd at £500m i reoli llif arian (i liniaru amrywiadau mewn derbynebau treth ac i fynd i'r afael â diffyg cyfatebiaeth dros dro rhwng treth a gwariant) ac, yn amodol ar gymeradwyaeth Trysorlys ei Mawrhydi, hyd at gyfanswm o £500m ar gyfer gwariant cyfalaf. Bydd y pwerau benthyca newydd yn dod i rym trwy Orchymyn Cychwyn gan y Trysorlys ochr yn ochr â datganoli treth dir y dreth stamp a'r dreth dirlenwi (a gynllunnir ar gyfer Ebrill 2018).

Bydd cychwyn ar Adran 21 o Ddeddf Cymru 2014 yn diddymu pwerau benthyca (mwy cyfyngedig) Atodlen 3 i Ddeddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975, sydd wedi'u rhoi i Weinidogion Cymru.

Mae'r Papur Gorchymyn a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU ochr yn ochr â Bil Cymru (Mawrth 2014) hefyd yn datgan:

*Benthyca Cyfalaf*

- O fewn y trothwy o £500 miliwn ar gyfer benthyca cyfalaf, gall Llywodraeth Cymru fenthyca hyd at £125 miliwn y flwyddyn;
- Gellir benthyca o’r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol (trwy Lywodraeth y DU) neu fanciau masnachol yn unig;
- Nes i'r pwerau benthyca cyfalaf newydd ddod i rym (a gynllunnir ar gyfer Ebrill 2018), gall Llywodraeth Cymru fenthyca o dan Atodlen 3 i Ddeddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975 er mwyn ariannu gwelliannau i’r M4 yn Ne-ddwyrain Cymru;
- Bydd Llywodraeth y DU yn adolygu terfyn uchaf benthyca cyfalaf Llywodraeth Cymru yn ystod pob Adolygiad o Wariant, yng ngoleuni amgylchiadau economaidd a chyllidol, a lefel y trethiant datganoledig.

*Benthycan Refeniw*

- O fewn y terfyn o £500 miliwn ar gyfer benthyca refeniw, gall Llywodraeth Cymru fenthyca hyd at £200 miliwn y flwyddyn;
- Bydd cronfa wrth gefn newydd yn cynorthwyo Llywodraeth Cymru i reoli ansefydlogrwydd trwy ddarparu ffordd o arbed 'refeniw dros ben' (er enghraifft, derbynebau treth sy'n uwch na'r disgwyl) – yr alwad gyntaf ar refeniw dros ben fydd ad-dalu unrhyw arian sydd wedi'i fenthyca ar hyn o bryd, ac ar ôl hynny, gallai unrhyw arian sy'n weddill gael ei dalu i mewn i gronfa wrth gefn neu ei ddefnyddio i ariannu gwariant cyhoeddus ychwanegol ar fater datganoledig.

34. Cytunodd Papur Gorchymyn Proses Dydd Gŵyl Dewi Llywodraeth y DU (Chwefror 2015) i ychwanegu'r opsiwn o ariannu bondiau. [8] Bydd angen ychwanegu at hyn cyn i'r pwerau benthyca cyfalaf ddod i rym.

[8] Yn dilyn trafodaethau rhynglywodraethol a thrawsbleidiol (Proses Dydd Gŵyl Dewi) cytunodd Llywodraeth y DU ymestyn pwerau benthyca Llywodraeth Cymru i gynnwys bondiau yn y Papur Gorchymyn 'Pwerau at bwrpas: tuag at setliad datganoli sy'n para i Gymru' (Cm 9020), 27 Chwefror 2015, pennod 4, tudalen 51: https://www.gov.uk/government/publications/powers-for-a-purpose-towards-a-lasting-devolution-settlement-for-wales.cy

35. Fel rhan o'r addasiad a wnaed er mwyn datganoli cyfraddau annomestig yn llwyr i Gymru (Ebrill 2015), ychwanegodd Llywodraeth y DU £98.5 miliwn at gronfa wrth gefn newydd Llywodraeth Cymru. Bydd yr arian hwn ar gael i'w ddefnyddio i fynd i'r afael ag ansefydlogrwydd o ran trethi datganoledig yn y dyfodol.

36. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried opsiynau o ran sut y bydd pwerau benthyca cyfalaf yn cael eu rhoi ar waith, yn ogystal â'r dulliau a'r prosesau y mae eu hangen er mwyn i'r pwerau hynny fod yn effeithiol. Bydd hyn yn cynnwys sut y dylid adrodd ar ariannu gwariant cyfalaf, ad-dalu dyledion ac ymrwymiadau sy'n weddill.

37. Ym mis Medi 2016, cytunodd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU – yng Nghyd-bwyllgor y Trysorlysoedd (Cymru) – i gynnwys, fel rhan o'r trafodaethau ynghylch y fframwaith cyllidol, adolygiad o'r achos dros newid y terfyn benthyca cyfalaf.

---

**Treth incwm**

Mae Adrannau 12-14 ac Atodlen 1 i Ddeddf Cymru 2014 yn galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i bleidleisio ar gynnig i gael refferendwm ar ddatganoli'r dreth incwm yn rhannol i Gymru. Os bydd yn cael ei basio, byddai argymhelliad yn cael ei wneud i Ei Mawrhydi i wneud Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor a fyddai'n achosi refferendwm yng Nghymru.

Pe bai refferendwm yn cael ei gynnal, a phe bai mwyafrif y pleidleiswyr yn cytuno y dylai'r dreth incwm gael ei datganoli'n rhannol, mae Adrannau 8-11 yn nodi sut y byddai'r dreth incwm yn cael ei datganoli; yn diffinio'r rheiny sy'n talu treth incwm yng Nghymru ac yn galluogi Llywodraeth Cymru i osod cyfraddau treth incwm yng Nghymru (gweler paragraff 41).

38. Byddai gweithredu'r darpariaethau treth incwm yn Neddf Cymru 2014 yn cyfrannu £2 biliwn ychwanegol o refeniw treth ddatganoledig at gyllideb Cymru, ac felly'n cynyddu'n sylweddol y posibilrwydd o ansefydlogrwydd yn y gyllideb ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. O ystyried y pryderon ynghylch gweithredu fformiwla Barnett yng Nghymru[9], mae'n hollbwysig sicrhau ateb cadarn, hirdymor cyn i'r pwerau gael eu gweithredu. Mae'r Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru (Comisiwn Silk), a oedd yn sail ar gyfer llawer iawn o Ran 2 o Ddeddf Cymru 2014, yn argymell y dylai trosglwyddo pwerau treth incwm i Lywodraeth Cymru fod yn amodol ar ddatrys y mater ynghylch ariannu teg mewn ffordd y cytunir arni gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Croesawyd yr argymhelliad hwn gan bob plaid yn y Cynulliad Cenedlaethol.

39. Yn yr Adolygiad o Wariant a Datganiad yr Hydref 2015, cyhoeddodd Llywodraeth y DU cyllid gwaelodol i Gymru wedi'i osod ar 115% o wariant y person yn Lloegr ar wasanaethau sydd wedi'u datganoli i Gymru. Fodd bynnag, ni ddarparwyd unrhyw fanylion eraill am sut y bydda'r cyfrifiadau'n cael eu gwneud na sut y byddai'r cyllid gwaelodol yn cael ei weithredu. [10] Mae'r cyllid gwaelodol yn cael ei drafod ar hyn o bryd yng Nghyd-bwyllgor y Trysorlysoedd (Cymru) gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, fel rhan o'r trafodaethau ynglŷn â fframwaith cyllidol i Gymru.

Cael gwared ar y gofyniad am refferendwm

40. Mae Bil Cymru, sydd wedi'i gyflwyno i'r Senedd ar hyn o bryd, yn cynnwys darpariaeth i gael gwared ar y gofyniad i gael refferendwm cyn cychwyn ar y darpariaethau treth incwm yn Neddf Cymru 2014. Mewn egwyddor, byddai hyn yn galluogi Llywodraeth y DU i gychwyn ar y darpariaethau treth incwm yn Neddf Cymru 2014 heb ofyn i'r Cynulliad Cenedlaethol gytuno ar hynny.

41. Mae hyn yn tanlinellu pa mor bwysig yw hi i'r ddwy lywodraeth ddod i gytundeb ar y fframwaith cyllidol. Mae'r Prif Weinidog wedi ei gwneud yn glir y bydd yn rhaid dod i gytundeb cyn cefnogi Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Cymru.

---

[9] Gweler yr adroddiadau gan y Comisiwn Annibynnol ar Ariannu a Chyllid i Gymru ('Comisiwn Holtham'): http://gov.wales/funding/fiscal-reform/framework/reports/?&lang=cy

[10] Adolygiad o Wariant a Datganiad yr Hydref 2015: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/479749/52229_Blue_Book_PU1865_Web_Accessible.pdf

**Trethi datganoledig newydd**

Mae Adran 6 o Ddeddf Cymru 2014 yn diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 er mwyn gallu creu trethi datganoledig newydd trwy Ei Mawrhydi yn gwneud Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor. Ni ellir gwneud argymhelliad i Ei Mawrhydi i wneud Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor tan i ddrafft o'r offeryn statudol sy'n cynnwys y Gorchymyn gael ei gyflwyno gerbron dau Dŷ'r Senedd a'r Cynulliad Cenedlaethol. Gallai'r rhain fod yn drethi o'r DU y mae Llywodraeth y DU yn eu datganoli i Gymru, neu'n drethi sydd newydd gael eu creu gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r Papur Gorchymyn a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU ochr yn ochr â Bil Cymru (Mawrth 2014) yn rhoi rhagor o fanylion am sut y byddai cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer trethi newydd, yn y lle cyntaf, yn cael eu hasesu gan Lywodraeth y DU.

42. Nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau ar yr adeg hon i gynnig treth ddatganoledig newydd, fodd bynnag mae'r gallu i gynllunio trethi newydd yn ychwanegiad defnyddiol at bwerau Llywodraeth Cymru. Yn y dyfodol, gallai gael ei ddefnyddio i helpu i newid ymddygiad, i godi refeniw i fuddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus – neu'r ddau. Mae gwaith ystyried yn mynd yn ei flaen yn dilyn cyfraniadau defnyddiol yn y maes hwn, gan gynnwys gwaith Sefydliad Bevan.[11] Mae Llywodraeth Cymru yn glir bod angen i unrhyw gynnig ar gyfer treth newydd gael ei brofi'n drylwyr er mwyn sicrhau y gallai esgor ar yr allbynnau y dymunir eu gweld heb unrhyw ganlyniadau nas dymunir, ac nad oes unrhyw rwystrau ymarferol.

---

[11]Mae Adroddiad Sefydliad Bevan 'Tax for good: devolved taxes for a better Wales' ar gael yn: https://www.bevanfoundation.org/publications/tax-good-new-taxes-better-wales/

**Addasiad grant bloc**

43. Mae gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn cael eu hariannu'n bennaf trwy grant bloc Cymru. Pan fydd trethi Cymreig yn cael eu cyflwyno ym mis Ebrill 2018 – y dreth trafodiadau tir a'r dreth gwarediadau tirlenwi – bydd refeniw treth sydd ar hyn o bryd yn cael ei dalu i Lywodraeth y DU yn cael ei dalu i Lywodraeth Cymru yn lle. O ganlyniad, bydd angen addasu grant bloc Cymru.

44. Ym mis Medi 2016, dechreuodd trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch sut y bydd cyllid ar gyfer gwasanaethau yn newid ar ôl datganoli pwerau treth.[12] Mae'r ddwy lywodraeth yn ceisio cytuno ar fframwaith cyllidol newydd a fydd yn mynd i'r afael ag:

- Yr addasiad i'r grant bloc;
- Gweithredu'r cyllid gwaelodol, gan gynnwys sut y bydd yn gweithredu ochr yn ochr â fformiwla Barnett ac addasiad y grant bloc;
- Terfyn uchaf benthyca cyfalaf Llywodraeth Cymru;
- Trefniadau rheoli cyllideb.

45. Mae'r trafodaethau'n cael eu cynnal fel rhan o Gyd-bwyllgor y Trysorlysoedd (Cymru), a sefydlwyd yn 2014 i oruchwylio'r broses o drosglwyddo pwerau ariannol i Lywodraeth Cymru. Mae Cyd-bwyllgor Trysorlysoedd Cymru yn cynnwys Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, sy'n cynrychioli Llywodraeth Cymru, a Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys, sy'n cynrychioli Llywodraeth y DU.

46. Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, rhagwelir y bydd y trafodaethau wedi'u cwblhau erbyn dechrau 2017.

---

[12] Trafodaethau ynghylch y fframwaith cyllidol: http://gov.wales/funding/fiscal-reform/framework/?lang=cy

**Gweithdrefnau cyllidebol**

Mae Adran 22 o Ddeddf Cymru 2014 sy'n diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006, yn galluogi'r Cynulliad i ddeddfu ar gyfer ei weithdrefnau cyllidebol ei hun.

47. Nid oes angen adroddiad ar gynnydd tuag at sefydlu gweithdrefnau cyllidebol newydd ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol o dan Ddeddf Cymru 2014, fodd bynnag mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn briodol adolygu cynnydd.

48. Yn dilyn argymhellion ymchwiliad Pwyllgor Cyllid y Pedwerydd Cynulliad i Arferion Gorau o ran y Gyllideb, mae swyddogion Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Cynulliad wedi cydweithio i ddatblygu cynigion ar gyfer proses ddiwygiedig o graffu ar y gyllideb. Mae Pwyllgor Busnes y Cynulliad Cenedlaethol wedi ystyried yr egwyddorion cyffredinol o ran proses ddiwygiedig o graffu ar y gyllideb, a fydd yn llywio diwygiadau i Reolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol. Bydd Protocol Cyllideb hefyd yn cael ei ddatblygu. Disgwylir y bydd y rhain yn cael eu trafod ac y bydd pleidlais arnynt yng ngwanwyn 2017 yn barod ar gyfer craffu ar Gyllideb ddrafft 2018-19.

49. Mae gwelliannau eraill yn cynnwys alinio cynnig cyllidebol a chyfrifon cyfunol Llywodraeth Cymru â ffin gyllidebol Trysorlys ei Mawrhydi. Bydd y gwaith alinio yn cael ei wneud yn raddol, gan ddechrau gyda'r cyrff hynny sydd wedi'u cyfuno o fewn cyfrifon adnoddau blynyddol Llywodraeth Cymru. Cafodd Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2016 ei gyflwyno ar 18 Tachwedd 2016, gan ddynodi Byrddau Iechyd Cymru a dau o is-gwmnïau Llywodraeth Cymru.[13]

50. Bydd cyfnod nesaf y gwaith alinio yn ystyried pob un o gyrff eraill Llywodraeth Cymru a ddosberthir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol i Sector y Llywodraeth Ganolog.

51. Mae Bil Cymru sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd yn darparu ar gyfer datganoli pwerau sy'n ymwneud â rheolaeth ariannol, cyfrifon ac archwilio. Yn amodol ar ei basio'n llwyddiannus, bydd hyn yn rhoi cyfle i Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol ddatblygu a chyflwyno deddfwriaeth gynhwysfawr ar gyfer fframwaith ariannol Cymru sy'n ymgorffori trefniadau cyllidebol ac atebolrwydd.

<u>Rhagolygon refeniw</u>

52. Mae Llywodraeth y DU wedi gofyn i'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol rag-weld derbynebau Cymru ar gyfer y ddwy dreth a fydd yn cael eu datganoli i Gymru – treth dir y dreth stamp (a fydd yn cael ei disodli gan y dreth trafodiadau tir) a'r dreth dirlenwi (a fydd yn cael ei disodli gan y dreth gwarediadau tirlenwi). Cynhyrchodd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ragolygon am y tro cyntaf ym mis Rhagfyr 2014, ac mae wedi ailadrodd yr ymarfer ochr yn ochr â Chyllidebau Mawrth 2015, Gorffennaf 2015 a Mawrth 2016; Adolygiad o Wariant a Datganiad yr Hydref 2015; a Datganiad yr Hydref 2016.

[13] Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2016: http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2016/1096/contents/made

53. Bydd Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu ei rhagolygon ei hun o refeniw treth ar gyfer y trethi newydd – y dreth trafodiadau tir a'r dreth gwarediadau tirlenwi – o 2018-19 ymlaen.

54. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y ffordd orau o graffu'n annibynnol ar y rhagolygon refeniw ar gyfer trethi Cymru.

---

**Atodiad 1**

**Ymgysylltu**

Grŵp Cynghori Trethi

Mae'r Grŵp Cynghori Trethi yn darparu cyngor i Weinidogion Cymru ar bolisi trethi a systemau gweinyddu trethi, ac mae'n ystyried yr effaith y gall polisïau newydd ei chael ar bobl Cymru. Mae ei aelodaeth yn cynrychioli amrywiaeth eang o safbwyntiau ac arbenigeddau, er mwyn sicrhau bod anghenion pobl Cymru yn cael eu cynrychioli ar y lefel uchaf.

Mae'r grŵp yn cael ei gadeirio gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, ac yn cwrdd deirgwaith y flwyddyn.

*Cylch Gwaith*

- Darparu cyngor a chymorth o ran datblygu polisi trethi a systemau gweinyddu trethi yng Nghymru;
- Rhoi cyngor ar effaith ehangach polisi trethi Cymru ar randdeiliaid ac ar economi a gwead cymdeithasol Cymru;
- Helpu i wella cyfathrebu ar draws amrywiaeth o randdeiliaid mewn perthynas â pholisi trethi a systemau gweinyddu trethi, er mwyn cyfrannu'n well at ymgynghoriadau ynghylch trethi a deddfwriaeth trethi.

*Aelodau*

Emma Watkins, CBI
Ruth Marks, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Janet Jones, Ffederasiwn y Busnesau Bach
Robert Lloyd Griffiths, Sefydliad y Cyfarwyddwyr
Dr Victoria Winckler, Sefydliad Bevan
Martin Mansfield, TUC Cymru
Kay Powell, Cymdeithas y Cyfreithwyr
Y Cynghorydd Aaron Shotton, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Martin Warren, Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr
David Phillips, Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid
Andrew Evans, Geldards LLP
Frank Haskew, Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr

Mae rhagor o wybodaeth am y Grŵp Cynghori Trethi ar gael yn:
http://gov.wales/funding/fiscal-reform/tax-policy-development/tax-advisory-group/?lang=cy

Y Fforwm Trethi

Mae'r Fforwm Trethi yn ymgysylltu â phroffesiynau a sefydliadau cynrychioladol perthnasol ynghylch polisi trethi a systemau gweinyddu trethi. Mae'n darparu sgwrs ddwyffordd â gweithwyr treth proffesiynol am ddatblygu polisi a deddfwriaeth trethi yng Nghymru. Mae'n cwrdd o leiaf ddwywaith y flwyddyn.

O fis Rhagfyr 2016, bydd y Fforwm Trethi yn cael ei gadeirio gan gyfarwyddwr cyflawni Awdurdod Cyllid Cymru.

*Cylch Gwaith*

- Trafod, hysbysu a rhoi adborth mewn perthynas â'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn ymdrin â datganoli trethi yng Nghymru;
- Darparu cyngor a chymorth mewn perthynas â chyfathrebu ar ddatblygiad polisi trethi a systemau gweinyddu trethi yng Nghymru;
- Rhoi cyngor ar effaith ehangach polisi trethi Cymru ar randdeiliaid yng Nghymru;
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i alluogi cyfathrebu ledled rhwydweithiau sefydledig allweddol mewn perthynas â pholisi trethi a systemau gweinyddu trethi.

*Aelodau*

Daw'r aelodaeth o'r proffesiynau a'r sefydliadau hynny y bydd newidiadau o ran gweinyddu trethi yn effeithio'n uniongyrchol arnynt. Mae'r aelodau sy'n bresennol yn amrywio o gyfarfod i gyfarfod, ac yn cynnwys cynrychiolwyr o fyd busnes, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Mae'r rheiny sydd wedi bod i'r cyfarfodydd hyd yn hyn yn cynrychioli'r canlynol:

- Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig
- Cymdeithas Technegwyr Trethiant
- Ysgol y Gyfraith Bangor
- Cyngor Caerdydd
- Ysgol y Gyfraith Caerdydd
- Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth
- Sefydliad Siartredig Trethiant
- Cyngor Conwy
- Cymdeithas y Tirfeddianwyr
- Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad Cyfyngedig
- Cyngor Gwynedd
- Ffederasiwn y Busnesau Bach
- Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi
- Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr
- Y Gofrestrfa Tir
- Cymdeithas y Cyfreithwyr Lloegr a Chymru
- Y Swyddfa Symleiddio Treth
- Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig Cymru
- Asiantaeth y Swyddfa Brisio
- Swyddfa Archwilio Cymru
- Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru
- Ymddiriedolaethau Natur Cymru
- Coed Cadw
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Mae rhagor o wybodaeth am y Fforwm Trethi ar gael yma:
http://gov.wales/funding/fiscal-reform/tax-policy-development/tax-forum/?lang=cy

<u>Digwyddiadau ar gyfer rhanddeiliaid</u>

Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, a'i ragflaenydd, y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, wedi bod i amrywiaeth eang o gyfarfodydd, seminarau a

digwyddiadau eraill ledled Cymru, gan godi ymwybyddiaeth o'r pwerau cyllidebol newydd ac annog ymgysylltiad â'r broses datblygu polisi. Roedd y rhain yn cynnwys Sgwrs am Drethi Cymru ym mis Chwefror 2016; prif anerchiad yn y Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff ar y dreth gwarediadau tirlenwi ac Awdurdod Cyllid Cymru, ac anerchiad mewn digwyddiad a drefnwyd ym mis Hydref 2016 gan Gymdeithas y Cyfreithwyr a'r Sefydliad Siartredig Trethiant ar Awdurdod Cyllid Cymru a'r dreth trafodiadau tir.

Ffyrdd eraill o gadw mewn cysylltiad

*Cyfryngau cymdeithasol*
Mae datganoli trethi yng Nghymru yn cael ei hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol trwy gyfrif Twitter Trysorlys Cymru @TrysorlysCymru: https://twitter.com/TrysorlysCymru

*Cylchlythyr*
Cyhoeddwyd cylchlythyr cyntaf Trysorlys Cymru ym mis Hydref 2016, a bydd yn cael ei gyhoeddi bob deufis. Mae hwn yn rhoi diweddariadau byr ar gynnydd, yn ogystal â dolenni i gael rhagor o wybodaeth. Gall tanysgrifwyr newydd gofrestru yma:
https://public.govdelivery.com/accounts/UKWALES_CY/subscriber/new?topic_id=UKWALES_CY_50

Papurau'r Trysorlys
Mae gwybodaeth fwy manwl am ddatblygu trethi datganoledig yn cael ei darparu yng nghyfres Papurau'r Trysorlys, gan gynnwys ffeithiau a ffigurau allweddol am y trethi sy'n cael eu datganoli:
http://gov.wales/funding/fiscal-reform/treasury-papers/?lang=cy

---

**Atodiad 2**

**Rhagor o wybodaeth**

Mae amrywiaeth o wybodaeth bellach am ddatganoli trethi i Gymru ar gael ar y Rhyngrwyd.

Cefndir

*Y Comisiwn Annibynnol ar Ariannu a Chyllid i Gymru (Comisiwn Holtham)*
Sefydlwyd y Comisiwn gan Lywodraeth Cymru i ystyried y dull ariannu yng Nghymru a sut y gellid ei wella, gan gynnwys yr achos dros ddatganoli pwerau trethu a benthyca. Cyhoeddodd y Comisiwn ddau adroddiad gydag argymhellion (2009 a 2010) – mae'r rhain a deunyddiau eraill a gyhoeddwyd gan y Comisiwn, ar gael yma:
http://gov.wales/funding/fiscal-reform/framework/reports/?lang=cy

*Y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru (Comisiwn Silk)*
Comisiwn Llywodraeth y DU sydd â'r dasg o ystyried trefniadau ariannol a chyfansoddiadol Cymru. Rhoddodd ei adroddiad cyntaf (2012) sylw i'r achos dros ddatganoli pwerau trethu a benthyca, yn ogystal ag i newidiadau cyfansoddiadol perthnasol:
http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20140605075122/http://commissionondevolutioninwales.independent.gov.uk/cy/

Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol

*Ymgyngoriadau*
Casglu a rheoli trethi datganoledig, gan gynnwys crynodeb o'r ymatebion:
http://gov.wales/betaconsultations/finance/devolved-taxes/?lang=cy

Y dreth trafodiadau tir, gan gynnwys crynodeb o'r ymatebion:
http://gov.wales/betaconsultations/finance/land-transaction-tax/?lang=cy

Y dreth gwarediadau tirlenwi, gan gynnwys crynodeb o'r ymatebion:
http://gov.wales/betaconsultations/finance/landfill-disposals-tax/?lang=cy

*Papur trafod*
Gosod cyfraddau a bandiau:
http://gov.wales/funding/fiscal-reform/welsh-taxes/land-transaction-tax/?lang=cy

*Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016*
Mae'r Ddeddf hon yn rhoi fframwaith cyfreithiol ar waith ar gyfer casglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru, gan gynnwys sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru:
http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/6/pdfs/anaw_20160006_we.pdf

*Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru*)
Mae'r Bil hwn, a gyflwynwyd ar 12 Medi 2016, ac sydd gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ar hyn o bryd, yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cyflwyno treth trafodiadau tir o fis Ebrill 2018, yn ogystal â mesurau i fynd i'r afael ag osgoi trethi datganoledig:
http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=15873

*Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru)*
Mae'r Bil hwn, a gyflwynwyd ar 28 Tachwedd 2016, yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cyflwyno treth gwarediadau tirlenwi o fis Ebrill 2018:
http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=15874

*Fframwaith cyllidol*
Bydd y fframwaith yn nodi'r addasiadau i grant bloc Cymru, sut y bydd y cyllid gwaelodol yn cael ei weithredu, a sut y bydd yn gweithredu ochr yn ochr â fformiwla Barnett, terfyn uchaf benthyca cyfalaf Llywodraeth Cymru, a materion rheoli'r gyllideb.
http://gov.wales/funding/fiscal-reform/framework/?lang=cy

Llywodraeth a Senedd y DU

*Deddf Cymru 2014*
Deddfwriaeth y DU yn paratoi'r ffordd ar gyfer datganoli pwerau trethu a benthyca:
http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2014/29/contents/enacted

*Papur Gorchymyn Bil Cymru 2014*
Cafodd rhai agweddau ar y trefniadau ar gyfer datganoli pwerau trethu a benthyca (megis dyddiadau targed, mynediad cynnar i fenthyca a'r ffordd o ymdrin â chreu trethi datganoledig newydd) eu hegluro ym Mhapur Gorchymyn Llywodraeth y DU: Bil Cymru: atebolrwydd a grymuso ariannol, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2014:
https://www.gov.uk/government/publications/wales-bill

*Papur Gorchymyn Dydd Gŵyl Dewi*
Roedd *Pwerau at bwrpas: Tuag at setliad datganoli sy'n para i Gymru,* a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2015, yn golygu bod Llywodraeth y DU, ymhlith pethau eraill, yn ymrwymo i gyflwyno cyllid gwaelodol o ran lefel y cyllid cymharol y mae'n ei ddarparu i Llywodraeth Cymru; i ystyried yr achos a'r opsiynau ar gyfer datganoli rhagor o bwerau i'r Cynulliad dros Doll Teithwyr Awyr, ac i alluogi Llywodraeth Cymru i roi bondiau (tudalennau 50-51):
https://www.gov.uk/government/publications/powers-for-a-purpose-towards-a-lasting-devolution-settlement-for-wales.cy

*Adolygiad o Wariant a Datganiad yr Hydref 2015*
Mae hyn yn cynnwys yr ymrwymiad i gyflwyno cyllid gwaelodol ar gyfer Cymru, sydd i'w osod ar 115% o'r gwariant cymharol y pen yn Lloegr (tudalen 57):
https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/479749/52229_Blue_Book_PU1865_Web_Accessible.pdf

*Bil Cymru 2016*

Mae Bil Cymru yn ymdrin ag amrywiaeth eang o ddarpariaethau, gan gynnwys diddymu'r gofyniad yn Neddf Cymru 2014 i gynnal refferendwm cyn y gellid cyflwyno Cyfraddau Cymreig ar gyfer Treth Incwm. Mae gwybodaeth am gynnydd y Bil ar gael ar wefan y Senedd:
http://services.parliament.uk/bills/2016-17/wales.html

---

## Atodiad 3

### Acronymau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn

| | |
|---|---|
| CThEM | Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi |